



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



arweiniad i
Ddeoniaid Colegau a Phenaethiaid Adrannau
ar reoli iechyd a diogelwch

Mawrth 2015



Neges oddi wrth yr Is-ganghellor

Annwyl Gydweithwyr

Rwy'n siŵr eich bod eisoes yn deall pwysigrwydd eich swydd a'ch arweinyddiaeth, nid yn unig i sicrhau parhad llwyddiant eich Coleg, Ysgol neu Adran eich hun, ond y Brifysgol yn ogystal. Fel Deon Coleg, Pennaeth Ysgol neu Bennaeth Adran Wasanaeth mae gennych lawer o gyfrifoldebau a dyletswyddau ac yn eu plith mae sicrhau diogelwch a lles ein staff a'n myfyrwyr, yn ogystal â rhai y gall ein gweithredoedd effeithio arnynt.



Fel Is-ganghellor mae gennyf nifer fawr o gyfrifoldebau. Er bod rhai'n deillio o'r awydd clir i sicrhau bod y Brifysgol yn ffynnu drwy ddarparu addysg ac ymchwil o safon uchel, mae eraill yn fwy penodol ac yn codi o rwymedigaethau cyfreithiol a disgwyliadau. Rwy'n gwbl ymwybodol mai fi sy'n gyfrifol yn y pen draw am iechyd a diogelwch yn y Brifysgol, yn uniongyrchol o ran y gyfraith, fel y Prif Swyddog Gweithredol, ac fel y disgrifir yn ein Polisi Iechyd a Diogelwch ein hunain. Fodd bynnag, mae iechyd a diogelwch yn fwy na'r hyn a bennir gan y gyfraith yn unig. Mae'n golygu gwneud yr hyn sy'n iawn a thrin iechyd a diogelwch fel rhywbeth cefnogol, gan ein galluogi i wneud yr hyn rydym eisiau ei gyflawni mewn ffordd ddiogel.

Fel y gwneir yn glir yn ein Polisi Iechyd a Diogelwch yn y Brifysgol, diben iechyd a diogelwch yw rheoli risgiau ac nid ei ddiben yw rhwystro gweithgareddau ar y sail bod elfen o risg yn gysylltiedig â hwy. Mae yna rywffaint o risg ym mhopeth bron rydym yn ei wneud, boed yn groesi'r ffordd neu hedfan hanner ffordd ar draws y byd i wneud ymchwil faes. Dylid ystyried iechyd a diogelwch fel rhywbeth sy'n cefnogi ein gweithgareddau a'n galluogi i'w cynnal heb achosi niwed neu anaf.

Rwy'n gofyn i chi fel Deon, neu Bennaeth Ysgol neu Adran, hefyd ystyried iechyd a diogelwch fel rhywbeth sy'n cefnogi'r hyn rydych eisiau ei gyflawni ac a fydd yn eich diogelu chi, eich cydweithwyr a'ch myfyrwyr.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn grynodedig o'r hyn a ddisgwyllir oddi wrthyh ac mae wedi'i fwriadu hefyd i ateb rhai o'r cwestiynau sydd gennych efallai. Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn cydweithio i sicrhau ein bod nid yn unig yn cyflawni gofynion y gyfraith, ond ein bod hefyd yn edrych ar ôl ein hiechyd a'n diogelwch ein hunain a rhai ein cydweithwyr, myfyrwyr ac eraill y mae ein gweithgareddau'n effeithio arnynt.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth gyson.

Yr Athro John G. Hughes



MYNEGAI

Cynnwys	Tudalen
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Pam lechyd a Diogelwch?	3
1.2 Ydi o ddim yn ddud?	3
1.3 Beth yw Polisi lechyd a Diogelwch y Brifysgol?	3
1.3.1 Siart Sefydliadol lechyd a Diogelwch y Brifysgol:	
• Y Cyngor	
• Y Pwyllgor lechyd a Diogelwch	
• Yr Is-ganghellor	
• Y Pwyllgor Gweithredu	
• Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch (SEG)	
• Gwasanaethau lechyd a Diogelwch	
• Deoniaid Colegau / Penaethiaid Adrannau	
2. Cyflawni eich cyfrifoldebau fel Deon / Pennaeth	6
2.1 Alla i ddirprwyo cyfrifoldeb?	6
2.2 Ydy fy nghyfrifoldebau'n cynnwys adeiladau?	6
2.3 Lle ydw i'n ddechrau?	6
2.4 Faint ydych chi'n ei wybod ar hyn o bryd?	7
2.5 Pwy all helpu?	8
3. Pum Cam i Drefniadau lechyd a Diogelwch (Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu-Adolygu)	8
3.1 Cynllunio	9
3.2 Trefnu	10
3.3 Rheoli	12
3.4 Monitro	12
3.5 Adolygu	14
4. Beth os aiff rhywbeth o'i le?	16
5. Crynodeb	16
6. Gwybodaeth Ddefnyddiol	17
6.1 Enghraifft o Holiadur Blynnyddol Hunan-adolygu lechyd a Diogelwch i Ddeon Coleg	18
6.2 Enghraifft o Holiadur Blynnyddol Hunan-adolygu lechyd a Diogelwch i Bennaeth Adran	19



1. RHAGARWEINIAD

1.1 PAM IECHYD A DIOGELWCH?

Yr hyn sydd wrth wraidd ffordd y Brifysgol o ymdrin ag iechyd a diogelwch yw'r egwyddor na ddylai unrhyw un gael ei niweidio na'i wneud yn sâl o ganlyniad i weithgareddau'r Brifysgol. Yn ogystal â'r ddyletswydd foesol hon, mae yna bob math o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd; mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth hon o fewn cyfraith droseddol. Er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau niferus, mae'r Brifysgol yn ceisio gweithredu system effeithiol i reoli iechyd a diogelwch. Mae manteision hyn yn bellgyrhaeddol a'r nod yw:

- Hybu i'r eithaf les pobl yn y gwaith a thrwy hynny eu gallu i gynhyrchu.
- Rhwystro pobl rhag mynd yn sâl neu gael eu hanafu o ganlyniad i'w gwaith.
- Cefnogi enw da'r Brifysgol yng ngolwg myfyrwyr, darpar weithwyr, cyllidwyr / budd-ddeiliaid, partneriaid ymchwil, cyrff llywodraethu a'r gymuned ehangach.
- Lleihau'r tebygolrwydd o atal busnes yn ddifrifol o ganlyniad i ddigwyddiad o bwys.
- Lleihau - os nad dileu - y posibilrwydd o rywun yn dod ag achos troseddol neu sifil yn erbyn y Brifysgol, Colegau, Adrannau, Rheolwyr ac unigolion.

1.2 YDI O DDIM YN DDRUD?

Bob blwyddyn amcangyfrifir bod damweiniau a salwch yn costio rhwng £3.9 i £7.8 biliwn i gyflogwyr ym Mhrydain. Rhagdybir yn aml y bydd yswiriant yn gwneud iawn am unrhyw golledion ariannol. Fodd bynnag, nid yw polisiâu yn gyffredinol yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â chynnal busnes o ddydd i ddydd a'r effaith y gall methiannau mewn iechyd a diogelwch eu cael ar y sefydliad.

Yn ogystal â chostau cyfreithiol posibl yn gysylltiedig â damweiniau a salwch yn y gwaith, ceir hefyd effeithiau cysylltiedig cael pobl yn lle staff sy'n absennol, recriwtio, hyfforddi ac effeithiau negyddol ar forâl staff a myfyrwyr a'r gallu i gyflawni gweithgareddau cyffredinol o ddydd i ddydd. Gall y drwg effeithiau ar reolwyr a chydweithwyr fod yn niweidiol iawn.

Mae astudiaethau achos yn dangos y gall gweithredu system iechyd a diogelwch dda ddod â manteision busnes sylweddol i sefydliad. Dylid edrych ar iechyd a diogelwch fel cyfrwng cefnogol i'ch helpu i gyflawni eich amcanion a rhai eich staff a'ch myfyrwyr.

1.3 BETH YDY POLISI IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL?

Mae **Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol** yn ganolog i'w system o reoli iechyd a diogelwch. Mae'n ofynnol i'r sefydliad gael y Polisi hwn yn ôl y gyfraith ac mae'n egluro prif elfennau polisi a threfniadau rheolaethol yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles, gan nodi a phennu hefyd rai sydd â chyfrifoldebau yn y maes hwn. Ategir y Polisi gan wahanol **Safonau Polisi** a **Nodiadau Canllaw** sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar reolaethau iechyd a diogelwch a threfniadau'n ymwneud â pheryglon a risgiau penodol, megis diogelwch trydanol, diogelwch ymbelydredd a theithio dramor.



1.3.1 CYFRIFOLDEBAU IECHYD A DIOGELWCH

Isod crynhoir **cyfrifoldebau cyffredinol** pob swyddogaeth allweddol a amlinellir ar y Siart Sefydliadol a geir ar y dudalen nesaf:

Cyngor y Brifysgol: Corff llywodraethu'r Brifysgol yw'r 'cyflogwr' a ganddo ef y mae'r cyfrifoldeb corfforaethol terfynol dros faterion iechyd a diogelwch.

Pwyllgor Iechyd a Diogelwch: Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor a hwn yw prif gorff ymgynghorol y Brifysgol ar faterion iechyd a diogelwch. Mae'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor ac yn hyrwyddo iechyd a diogelwch ar lefel y Cyngor. Mae dau aelod lleig o'r Cyngor yn aelodau o'r Pwyllgor. Mae'r aelodau eraill yn cynnwys cynrychiolwyr staff ac Undeb y Myfyrwyr, yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellor dros Fyfirwyr, y Cofrestrydd Academaidd, Cyfarwyddwyr Ystadau a Chyfleusterau ac Adnoddau Dynol, Deon Coleg, Pennaeth Ysgol ac amrywiol staff iechyd a diogelwch o Golegau, Ysgolion ac Adrannau.


Yr Is-ganghellor: Fel y Prif Swyddog Gweithredol mae'r Is-ganghellor yn gyfrifol i'r Cyngor am hyrwyddo, gweinyddu a gweithredu Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, a chanddo ef y mae'r cyfrifoldeb eithaf dros iechyd a diogelwch.

Y Pwyllgor Gweithredu: Ar y cyd ac fel unigolion mae'r Pwyllgor Gweithredu'n gyfrifol am y penderfyniadau y mae'n ei wneud a'u heffaith ar iechyd a diogelwch. Mae angen i aelodau'r Pwyllgor Gweithredu sy'n rheolwyr llinell i Ddeoniaid a Phenaethiaid Adrannau eu bodloni eu hunain bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli a'i hyrwyddo'n briodol o fewn y Colegau a'r Adrannau hynny.

Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch (SEG): Grŵp Tasg rheolaethol yw hwn sy'n hyrwyddo a goruchwyllo materion iechyd a diogelwch ar draws y Brifysgol. Mae ei Gadeirydd yn adrodd i'r Is-ganghellor, gydag adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Gweithredu hefyd. Mae SEG yn gweithredu ar ran yr Is-ganghellor, lle bo'n briodol.

Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch (HSS): Mae hon yn adran wasanaeth ganolog a'i phrif bwrpas yw cynghori a chefnogi'r Brifysgol a'i Cholegau, Ysgolion ac Adrannau yn y rhan fwyaf o feysydd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch er mwyn galluogi i waith y brifysgol fynd yn ei flaen gan gydymffurfio â gofynion y gyfraith a hybu safonau iechyd a diogelwch da.

Deoniaid Colegau / Penaethiaid Adrannau: Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, a deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gyffredinol, yn dirprwyo lefel uchel o gyfrifoldeb i rai a ystyrir sydd â rheolaeth dros bethau, yn arbennig rhai mewn swyddi uwch. Mae Deoniaid Colegau a Phenaethiaid Adrannau yn gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn eu Coleg neu Adran. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros gynllunio, gweithredu, monitro ac adolygu mesurau i asesu a rheoli risgiau o weithgareddau Colegau / Adrannau. Dylai adnoddau digonol hefyd gael eu pennu fel bo'r angen.



Allwedd:

- - - - Llinell adrodd y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch
- Llinell adrodd y Pwyllgor Ymgynghorol
- Llinell adrodd Rheolaeth Uniongyrchol
- . . - Darparu adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
- — — — Darpariaeth cyngor a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch



2. CYFLAWNI EICH CYFRIFOLDEBAU FEL DEON / PENNAETH

2.1 ALLA I DDIRPRWYO CYFRIFOLDEB?

Ni all unrhyw un ddirprwyo cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch, gan y bydd lefel cyfrifoldeb yn aros gyda chi bob amser o ran eich holl weithgareddau Coleg/Adran. Fodd bynnag, nid yw hynny'n dweud na all eraill fod â lefelau o gyfrifoldeb hefyd.

Bydd gennych gyfrifoldeb cyfreithiol bob amser dros sicrhau bod gweithgaredd yn gweithredu'n ddiogel os bydd o fewn cylch gorchwyl eich Coleg neu Adran. Felly, fel y Deon/Pennaeth ni ellwch drosglwyddo cyfrifoldeb llwyr i eraill.

Disgwylir i chi arwain fel bo'r angen, hyrwyddo a chymryd cyfrifoldeb, yn union fel gyda phopeth 'rheolaethol' o fewn eich maes rheolaeth a dylanwad.

Gellwch, wrth gwrs, ddirprwyo dyletswyddau gan na all hyd yn oed Ddeoniaid neu Benaethiaid Adran wneud popeth. Pan fyddwch yn dirprwyo tasgau a dyletswyddau yn eich Coleg/Adran, mae'n rhaid i chi ddal i fodloni eich hun bod y tasgau'n cael eu cyflawni ac adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Os byddwch yn dirprwyo tasgau cofiwch gofnodi hynny a sicrhau bod y sawl y dirprwyir y gwaith iddo/iddi yn deall beth sydd angen ei wneud ac yn gymwys i gyflawni'r tasgau.

2.2 YDY FY NGHYFRIFOLDEBAU'N CYNNWYS ADEILADAU?

Er nad ydych yn gyfrifol yn gyffredinol am adeiladwaith yr adeilad neu wasanaethau, rydych yn gyfrifol am y ffordd mae eich Coleg neu Adran y gweithredu o fewn yr adeilad(au) a sut y maent yn cael eu defnyddio. Mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau'n gyfrifol am adeiledd a gwasanaethau holl adeiladau'r Brifysgol, er enghraifft, gwasanaethau dŵr, gwresogi a thrydan, ac am y tiroedd y tu allan i'ch adeilad(au). Mae cyfrifoldeb dros Neuaddau Preswyl yn wahanol i'r ystâd gyffredinol ac mae trefniadau ar wahân ar gyfer y rhain.

Gall eich cyfrifoldebau gynnwys cadarnhau bod yr adeilad yn addas ar gyfer eich gweithgareddau a bod risgiau'n gysylltiedig â'ch gweithgareddau o fewn adeilad (a thu allan iddo) yn cael eu hasesu er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb. Yn ogystal, efallai y bydd nifer fechan o ofynion profi, er enghraifft: gall gwirio larymau tân a threfnu ymarferion tân fod yn ddyletswydd prif ddefnyddiwr yr adeilad. Ceir gwybodaeth bellach ar ofynion penodol yn Asesiad Risg Cyffredinol (Hunan-Asesiad) eich Coleg / Adran.

2.3 LLE YDW I'N DDECHRAU?

Rhaid i bob Coleg / Adran gael trefniadau i reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol ac asesu risgiau'n gysylltiedig â'i gwaith a'i gweithgareddau. Fel rheol, bydd y drefn rheoli iechyd a diogelwch wedi'i hintegreiddio'n llawn â systemau rheoli eraill y Coleg neu Adran, gan adlewyrchu cymhlethdod gweithgareddau ac amgylcheddau gwaith y Coleg/Adran.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob Coleg / Adran lunio trefniadau cynllunio, rheoli, monitro ac adolygu angenrheidiol i ddiogelu iechyd a diogelwch. Mae gwybodaeth bellach ar y dull gweithredu hwn i'w chael yn '**5 Cam i Drefniadau Iechyd a Diogelwch**'.



2.4 FAINT YDYCH CHI'N EI WYBOD AR HYN O BRYD?

Faint ydych chi'n ei wybod mewn gwirionedd am weithgareddau eich Coleg/Adran a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â hwy? Gofynnwch i'ch hun:

- Beth yw'r risgiau sylweddol o fewn eich Coleg/Adran?
- Sut ydych chi'n gwneud yn siŵr bod y risgiau hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli?
- Pa ddamweiniau / digwyddiadau peryglus a ddigwyddodd y llynedd a faint o ddyddiau a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb staff oherwydd anafiadau neu salwch dros y 3-5 mlynedd ddiwethaf - oes yna duedd yn datblygu?
- Pwy yn eich Coleg/Adran sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a sut ydych chi'n gwybod bod ganddynt yr amser a'r adnoddau i gyflawni'r rhain?
- Pa hyfforddiant iechyd a diogelwch a roddir i'ch staff a'ch myfyrwyr?
- Ydy iechyd a diogelwch yn cael ei drafod yn ffurfiol yn eich Coleg/Adran ac a ymgynghorir â staff a myfyrwyr a'u hysbysu am y materion hynny (lle bo'n berthnasol)?
- A oes archwiliadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal ac a ydych chi, fel yr aelod staff uchaf, yn ymwneud â'r rhain?
- Sut ydych chi'n gwybod mewn gwirionedd a yw eich Coleg/Adran yn rheoli iechyd a diogelwch; ydych chi'n monitro safonau ac adolygu sut mae eich Coleg/Adran yn ei reoli?
- Oes yna unrhyw rwystrau i wella iechyd a diogelwch ac a ellir dod dros y rhain?
- Ydy iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys yn ystod Adolygiadau Datblygu Perfformiad (PDRs)?

Ac, yn olaf:

- Ydych chi'n cael eich ystyried yn gefnogwr iechyd a diogelwch - rhywun sy'n hyrwyddo a chefnogi iechyd a diogelwch?

Ffordd anffodus, ond angenrheidiol efallai, i hoelio sylw ar hyn yw ystyried y gwaethaf a gofyn i chi eich hun "allwn i mewn gwirionedd fod wedi gwneud mwy i rwystro rhywbeth rhag digwydd?" Cofiwch gall Arolygwyr o'r HSE ddod i unrhyw weithle heb rybudd ac nid ydynt yn meddwl ddwywaith cyn herio popeth. Efallai mai un o'u cwestiynau caletaf (yn arbennig os bydd yr Arolygwr/Arolygwyr HSE yn sôn am eich "hawl i aros yn dawel" fydd "beth wnaethoch chi ei wneud i sicrhau ei fod yn ddiogel?"

Fel Deon Coleg neu Bennaeth Adran gellwch gael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad a chyflawni cymaint, gan sicrhau bod iechyd a diogelwch yn gweithio i gefnogi eich gweithgareddau a chael ei barchu'r un pryd.



2.5 PWY ALL HELPU?

Gall penodi **Swyddog Iechyd a Diogelwch** Coleg/Adran neu **Gydllynydd Iechyd a Diogelwch** fod yn hanfodol. Dylai rhywun gwybod, gyda phrofiad o'r ffordd mae pethau'n gweithio yn eich Coleg / Adran roi peth sicrwydd bod y dasg o oruchwylio iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn cael ei chyflawni'n briodol. Fodd bynnag, bydd arnynt angen help, amser a chefnogaeth i gyflawni'r swyddogaeth hon a mynd i unrhyw hyfforddiant fydd ei angen arnynt i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Yn bwysicaf oll, bydd angen i bawb weld eu bod yn cael eich cefnogaeth lawn er mwyn sicrhau cydweithrediad pawb o fewn eich Coleg/Adran.

Fel yr adran wasanaeth ganolog, bydd HSS yn gwneud popeth a all i gefnogi eich gweithgareddau gwaith i sicrhau eu bod nid yn unig yn cydymffurfio â'r gyfraith, ond hefyd i sicrhau bod safonau da o ran iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal, a bod iechyd a diogelwch yn gweithio i gefnogi eich gweithgareddau a'ch dyheadau. Yn ogystal, mae HSS yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i hybu iechyd, sy'n helpu staff i aros yn iach a dychwelyd i'r gwaith wedi cyfnodau o absenoldeb salwch.

3. PUM CAM I DREFNIADAU IECHYD A DIOGELWCH

CYNLLUNIO	1. CYNLLUNIO	i. Asesu Risg / Adolygiad Cychwynnol	Cyflawni ac/neu ddiweddaru Asesiad Risg cyffredinol sy'n nodi peryglon a risgiau allweddol yn y Coleg / Adran, ac ategu hynny ag asesiadau manwl lle bo'r angen. Nodi ac adolygu dulliau a threfniadau rheoli er mwyn perfformio'n dda ym maes iechyd a diogelwch.
		ii. Polisi	Defnyddio'r Asesiadau Risg i adolygu eich Polisi Iechyd a Diogelwch a chadarnhau ei fod yn gosod safonau, rhoi sylw i beryglon, risgiau a rheoliadau allweddol, a phennu dyletswyddau a chyfrifoldebau i gyflawni ei amcanion.
		iii. Blaenoriaethau / Safonau	Hefyd, defnyddio'r Asesiadau Risg i helpu i bennu blaenoriaethau a safonau perfformio - rhywbeth anhepgor wrth bennu targedau.
GWNEUD	2. TREFNIADAETH	i. Trefnu	Cynnwys staff a myfyrwyr yn y broses ehangach o asesu risgiau, yn cynnwys nodi rheolaethau a'u gweithredu.



		ii. Cyfathrebu	Cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i ymgynghori â staff a myfyrwyr a chyflwyno gwybodaeth am iechyd a diogelwch iddynt.
		iii. Hyfedredd	Adnabod anghenion hyfforddi a darparu hyfforddiant, gwybodaeth, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth ddigonol.
	3. RHEOLI	i. Rheoli	Sicrhau bod trefniadau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn glir a bod pawb yn gwybod amdanynt ac yn eu deall (fel rheol drwy Bolisi Iechyd a Diogelwch eich Coleg/Adran). Darparu goruchwyliaeth fel bo'r angen er mwyn sicrhau bod rheolaethau'n cael eu gweithredu a'u dilyn.
GWIRIO	4. MONITRO	i. Monitro	Gwneud gwiriadau / archwiliadau i sicrhau bod eich system rheoli iechyd a diogelwch yn gweithio. Cynhyrchu a dilyn cynllun gweithredu i gyflawni eich Asesiadau Risg.
GWEITHREDU	5. ADOLYGU	i. Adolygu	Adolygu'n ffurfiol sut rydych yn rheoli iechyd a diogelwch. Gweithredu sy'n cael ei gofnodi a dilyn ei hynt nes ei fod yn cael ei gwblhau fel bo'r angen.
		ii. Gwella	Defnyddio darganfyddiadau'r broses fonitro / adolygu i wella systemau iechyd a diogelwch yn barhaus.

3.1 CYNLLUNIO

- Polisi I a D:** Mae pob Coleg / Adran eisoes wedi cynhyrchu **Polisi Iechyd a Diogelwch** a ddylai fod wedi rhoi sylw i agweddau allweddol ar eu gweithgareddau a risgiau ac a ddylai nodi sut y rheolir iechyd a diogelwch. Dylai fod yn hawdd ei ddilyn a dim ond mor drwyadl ag sydd angen i adlewyrchu lefel risg a natur gymhleth gweithgareddau'r Coleg/Adran. Fel rhan o'r broses hon bydd eich Coleg/Adran eisoes wedi cwblhau **Asesiad Risg Cyffredinol** (ar ffurf Hunan-asesiad fel rheol) o'ch prif beryglon a risgiau. Bydd yr Asesiad Risg hwn yn hynod werthfawr yn ystod y broses o adolygu eich Polisi a chadarnhau p'un a ydych yn gwneud popeth sy'n rhesymol ai peidio.



- **Asesiadau Risg:** Nid yw asesiad risg yn ddim mwy nag archwiliad gofalus o beth yn eich Coleg / Adran a allai achosi niwed i bobl, yr amgylchedd ac eiddo. Mae hyn yn cynnwys nodi pa reolaethau rydych eisoes wedi eu sefydlu ac yna penderfynu a ellwch wneud mwy i atal neu leihau'r tebygolrwydd o niwed. Yn gyffredinol, bydd gennych ddwy lefel o asesiadau risg:
 - **Asesiad Risg Cyffredinol:** Cymerir pwyntiau allweddol y templed Asesiad Risg Cyffredinol o ddeddfwriaeth a pholisi'r Brifysgol a bydd yn galluogi pob Coleg/Adran i nodi prif risgiau, ystyried sut y rheolir risgiau a helpu i weld beth sydd angen ei wneud nesaf. Mae pob pwynt allweddol yn gweithredu fel dangosydd y gall Colegau / Adrannau ei asesu eu hunain i weld pa mor dda y maent yn perfformio (a gyflawnir fel rheol fel rhan o'r Hunan-Asesiad blynyddol).
 - **Asesiadau Risg Tasg / Thematig / Manwl :** Bydd Asesiadau Risg Ychwanegol yn sicrhau bod tasgau penodol yn cael eu cyflawni'n ddiogel. Mae'r rhain yn tueddu i gael eu cynnal ar gyfer gweithgareddau neu feysydd mwy peryglus; er enghraifft, gwaith maes, defnyddio offer a all fod yn beryglus, prosesau anodd, teithio i rannau 'bygythiol' o'r byd, trefnu ymweliadau gan blant ysgol a defnyddio cemegau peryglus.
- **Blaenoriaethau / Safonau Perfformiad:** Mae Asesiadau Risg yn helpu i bennu blaenoriaethau a safonau perfformiad sy'n anhepgor wrth nodi beth sydd angen ei wneud. Dylai targedau a blaenoriaethau adlewyrchu lefelau risg, yn ogystal â rhwyddineb sefydlu rheolaethau. Er enghraifft, os yw'r risg yn berygl sydd ar fin digwydd, dylid delio â hynny'n syth.

3.2 TREFNIADAETH

Fel rheol bydd eich trefniadau i reoli iechyd a diogelwch yn adlewyrchu system a fframwaith rheoli cyffredinol y Coleg neu'r Adran.

Bydd pob un o'ch rheolwyr a staff goruchwyliol eraill yn gyfrifol i chi fel rheol am iechyd a diogelwch o fewn y meysydd sydd dan eu rheolaeth, fel ag y maent yn achos popeth arall y maent yn ei reoli.


- **Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Penodol :** Ni ellir disgwyl i chi'n bersonol reoli pob agwedd ar iechyd a diogelwch, felly bydd rhaid i chi ddirprwyo rhai/llawer o ddyletswyddau. Bydd hyn yn dilyn yr un drefn â threfniadau rheoli yn gyffredinol, er enghraifft i Reolwyr Coleg, Penaethiaid Ysgolion, Goruchwylwyr ac aelodau staff goruchwyliol eraill. I'ch helpu, gellwch hefyd benodi Swyddog/Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch gyda chylch gorchwyl clir i oruchwyllo ar arwain safonau iechyd a diogelwch.
- **Cyfathrebu:** Ni fydd rheolaethau iechyd a diogelwch yn gweithio os nad oes neb yn gwybod amdanynt. Gofalwch bod y broses gyfathrebu, yn ffurfiol ac anffurfiol, yn un dwy ffordd er mwyn galluogi **ymgyngchori** â staff a myfyrwyr a sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch yn cael ei throsglwyddo'n ôl mewn da bryd. Mae'n bwysig eich bod yn meddwl



am eich cynulleidfia; er enghraifft, bydd myfyrwyr a staff academiaidd yn gyfarwydd â Blackboard a MyBangor, tra na fydd gan staff eraill ddefnydd o gyfrifiadur hyd yn oed efallai.

- Yn achos Colegau/Adrannau mwy cymhleth a rhai gyda risgiau mwy dwys a sylweddol, rhagwelir y bydd grwpiau a phwyllgorau lleol yn cefnogi eich Hyrwyddwyr Iechyd a Diogelwch a goruchwylwyr, ar ran y Deon/Pennaeth. Gall hyn fod drwy grwpiau ffocws neu bwyllgorau a grwpiau lleol sy'n bodoli eisoes.

Gwelir isod fframwaith syml a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd iechyd a diogelwch:



- **Hyfedredd:** Mae'r Brifysgol yn amgylchedd gweddol unigryw gyda channoedd o weithgareddau'n digwydd bob dydd. Gall rhai o'r rhain fod yn rhai risg 'uwch' na ddeuir ar eu traws yn aml y tu allan i addysg uwch neu ymchwil. Oherwydd hynny dylai holl staff a myfyrwyr newydd gael **Sesiwn Gynefino ar Iechyd a Diogelwch** lle cyflwynir trefniadau a disgwyliadau'r Coleg/Ysgol neu Adran iddynt. Dylai'r sesiwn fod cyn hired ac mor drwyadl ag sydd angen i ymdrin â'r risgiau posibl.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod system ar gael i nodi gweithgareddau lle mae angen hyfforddiant, profiad ac/neu oruchwyliaeth ychwanegol i'w cyflawni fel bod staff a myfyrwyr yn fedrus i gyflawni tasgau penodol, yn cynnwys sut i ddelio ag argyfwng rhag ofn i bethau fynd o'i le.



Dylai hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth geisio sicrhau nad ydynt yn dechrau unrhyw dasg nes eu bod yn fedrus a hyderus i wneud hynny, gan ddiogelu nid yn unig eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ond eraill hefyd. Ac, wrth gwrs, ni ddylid dechrau ar unrhyw weithgaredd nes bod asesiad risg addas wedi'i wneud.

Yn ogystal, dylid sefydlu systemau i fonitro hyfforddiant er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol neu'n cael ei ddiwygio lle bo'r angen. Dylai gofynion hyfforddi gael eu hasesu'n rheolaidd - o leiaf yn flynyddol - ac/neu eu cynnwys fel rhan o'ch proses adolygu staff. Dylai cofnodion gael eu cadw hefyd.

3.3 RHEOLI

Mae gwybod beth yw eich risgiau a'u deall, a sut y rheolir y rhain, yn hanfodol i reoli iechyd a diogelwch. Gall rheolaethau fod ar ffurf 'dulliau gweithredu ysgrifenedig' sy'n nodi sut mae'r risg i gael ei rheoli a chan bwy. Er enghraifft, protocolau ysgrifenedig ar sut i ddefnyddio darn o offer cymhleth, trefniadau wrth fynd â grŵp mawr o fyfyrwyr ar ymchwil/astudiaeth faes (h.y. teithio mewn bws mini, gweithgareddau pan fyddwch ar y safle, dulliau gweithredu mewn argyfwng).

Mewn amgylcheddau risg isel, gall rheolaethau fod mor syml â dirprwyo dyletswyddau a chyfrifoldebau goruchwylol a gwneud archwiliadau ysbeidiol o'r man gwaith. Mae angen i reolaethau adlewyrchu'r risg bosibl a'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae angen i chi gael sicrwydd bod holl weithgareddau eich Coleg/Adran yn cael eu rheoli'n briodol. Nid oes fawr o gyfiawnhad dros beidio â chael rheolaethau addas ar gyfer agweddau ar raglen academiaidd sydd wedi ei sefydlu ers tro ac sydd â lefel sylweddol o risg yn gysylltiedig â hi; er enghraifft, modiwlau labordy, astudio dan gyfarwyddyd yn y maes, project gwaith cymdeithasol, defnyddio offer peryglus.

Yr un modd, disgwylir i drefniadau ysgrifenedig addas (y cyfeirir yn aml atynt fel 'systemau gweithio diogel') fod ar gael ar gyfer gweithgareddau a all fod yn beryglus a gyflawnir gan Adran Wasanaeth; megis cynnal a chadw offer, cyfleusterau storio, cludiant ac ymdrin â'r cyhoedd.

3.4 MONITRO

Yn gyffredinol ceir dau faes o fonitro iechyd a diogelwch, adweitheddol a gweithredol. Mae'r ddau'n hanfodol i bennu meysydd i'w gwella.

- **Gweithredol:** Sail monitro gweithredol yw safonau perfformiad sy'n nodi pwy sy'n gwneud beth, pryd a beth yw'r canlyniad y dymunir ei gael. Dylai monitro gweithredol roi gwybodaeth i benderfynu a yw rhagofalon yn y man gwaith wedi eu sefydlu ac a ydynt yn gweithredu ac yn effeithiol.

Er enghraifft, os yw eich Polisi'n datgan y byddwch yn rhoi sesiynau cynefino ar iechyd a diogelwch i holl fyfyrwyr newydd ("bydd holl fyfyrwyr yn cael Sesiwn Gynefino"), mae'r ymrwymiad hwn yn ddangosydd perfformiad y gellir ei fesur yn erbyn tystiolaeth a gasglwyd i



weld a yw'r safon yn cael ei chyflawni. Mae'r un peth yn wir yn achos aelodau staff newydd ac academyddion ar ymweliad.

Fel rheol, cefnogir monitro gweithredol gan restr wirio (o fesuriadau perfformiad / meincnodau) a fydd yn nodi beth a ddisgwylir a'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos y cydymffurfir â hynny. Er enghraifft: Gwaith maes; y safon berfformio yw "dylid gwneud asesiad risg yn achos holl waith maes a oruchwylir a gwaith maes ymchwil" Gall y mesur hwn olygu dewis modiwl hyfforddedig sy'n cynnwys gwaith maes a nifer o brojectau ymchwil gyda gwiriad i sicrhau bod asesiadau risg wedi eu sefydlu. Bydd y mesur dangosol hwn yn adlewyrchu'r lefel ehangach o gydymffurfio yn y rhan fwyaf o achosion.

Bydd monitro gweithredol hefyd yn digwydd ar ffurf Archwiliadau Iechyd a Diogelwch cyffredinol, y disgwylir i Ddeoniaid a Phenaethiaid gymryd rhan ynddynt o bryd i'w gilydd. Mae archwiliadau'n edrych ar galedwedd (adeiladau, offer/peiriannau a sylweddau) a meddalwedd (pobl, dulliau gweithredu a systemau) yn cynnwys ymddygiad a pherfformiad unigolion lle bo hynny'n berthnasol. Dylai monitro gweithredol nodi a datrys problemau cyn i unrhyw beth fynd o'i le.

- **Adweitheddol:** Sail monitro adweitheddol yw asesu a monitro pethau sydd wedi mynd o'i le, neu a allai fod wedi mynd felly. Dylai monitro adweitheddol ateb y cwestiynau canlynol:
 - Oes yna fethiannau'n digwydd (anafiadau/salwch/colledion/digwyddiadau a allai fod wedi achosi damweiniau)?
 - Ymhle maent yn digwydd?
 - Beth ydy natur y methiannau?
 - Pa mor ddifrifol ydynt?
 - Beth oedd y canlyniadau posibl?
 - Beth yw'r rhesymau dros y methiannau?
 - Beth yw'r costau?
 - Pa welliannau sydd angen eu gwneud i'r system rheoli iechyd a diogelwch?
 - Ydych chi'n mynd yn well/waeth?

Mae monitro adweitheddol yn ceisio darganfod beth sydd wedi digwydd a pham y digwyddodd rhywbeth, nodi'r methiannau a ganiataodd iddo ddigwydd ac ystyried a yw hyn yn duedd neu a oes angen gwneud mwy i gefnogi iechyd a diogelwch.

Gall fod yn briodol i Ysgolion/Adrannau risg is wneud Archwiliad Iechyd a Diogelwch syml o ystafelloedd a mannau eraill a ddefnyddir ganddynt, gan ychwanegu at hynny gydag adolygiad manylach o weithgareddau risg uwch, megis gwaith maes.

Yn achos Colegau, Ysgolion ac Adrannau gyda phroffil risg uwch, bydd monitro mwy manwl, gan ddefnyddio holiadur neu drefn weithredu bwrpasol, yn briodol. Er enghraifft, gall fod yn ymarferol i ddatblygu holiaduron monitro penodol i asesu iechyd a diogelwch mewn labordai



biolegol a chemegol, cloddiadau archeolegol, gweithio mewn mannau uchel, teithio dramor neu wneud ymchwil gymdeithasol y tu allan i adeiladau'r brifysgol.

Mae monitro'n fwy na dim ond asesu'r 'hyn y gellwch ei weld'; mae hefyd yn cynnwys prosesau a gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r Brifysgol yn mynnu bod holl staff sy'n hawlio tâl milltiroedd, neu sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol, yn cyflwyno eu trwydded yrru a chael eu cymeradwyo i yrru. Ydy hyn yn cael ei wneud?

Mae monitro sut rydych yn rheoli risg yn hanfodol ac yn rhan allweddol o ymarfer da o ran rheoli diogelwch.

- **Asesiad Risg Cyffredinol:** Bydd Asesiad Risg Cyffredinol eich Coleg/Adran yn rhoi sylfaen dda i chi ddatblygu eich system fonitro fwy penodedig arni. Bydd yr Asesiad Risg yn nodi eich sgiliau allweddol a chrynhai beth rydych yn ei wneud i sicrhau nad yw'r risgiau'n cael eu gwireddu; gall eich monitro gweithredol (Hunan-Asesiad) wirio wedyn i gadarnhau bod y rheolaethau a nodwyd wedi'u sefydlu, eu bod yn ddigonol ar gyfer lefel y risg a'u bod yn gweithio. Bydd eich Asesiad Risg Cyffredinol (Hunan-asesiad) yn cael ei gyflwyno i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn flynyddol.

Dylai'r broses hon gael ei chyfnerthu hefyd drwy archwiliadau cerdded o gwmpas rheolaidd yn y mannau rydych yn gweithio ynddynt.

3.5 ADOLYGU

Bydd adolygu'r hyn rydych yn ei wneud a pha mor llwyddiannus ac effeithlon yw eich rheolaethau, yn rhoi tawelwch meddwl i chi fel Deon/Pennaeth a chefnogi gwelliant parhaus, sy'n aml yn elfen allweddol o systemau rheoli. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad cryf i iechyd a diogelwch ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd hynny ymysg eich tîm.

Y ffordd orau'n aml i wneud adolygiadau yw trwy 'gymryd cam yn ôl', lle rydych yn edrych drachefn ar y darlun ehangach, archwilio'r dystiolaeth o archwiliadau a monitro, ystyried sut mae eich Coleg/Adran wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf (a ph'un a yw eich risgiau wedi newid o ganlyniad i weithgareddau neu fodiwlau newydd) a gwerthuso pa mor lawn yr ydych wedi gweithredu argymhellion archwiliadau, asesiadau risg ac ymarferion monitro blaenorol.

Os yw eich adolygiad yn dangos eich bod wedi nodi eich holl risgiau o bwys gyda'r holl argymhellion o archwiliadau ac asesiadau risg wedi cael eu rhoi ar waith, eich bod yn parhau i fonitro safonau a'u gweithrediad yn gyson, bod eich record ar ddamweiniau a salwch yn dda ac nad oes unrhyw newidiadau o bwys i fodiwlau/gweithgareddau, yna byddwch wedi cwblhau eich adolygiad yn rhwydd.

Os yw eich adolygiad yn dangos na ddeliwyd â llawer o faterion a nodwyd yn flaenorol, bod modiwlau newydd wedi cael eu cyflwyno heb wneud asesiad risg llawn neu ystyriaeth addas, neu nad oes unrhyw archwiliadau neu fonitro lleol wedi'i wneud, yna bydd angen dull cadarnach o weithredu i benderfynu pam, ac i wneud yn siŵr bod safonau'n cael eu gwella yn y dyfodol. Ni ddylai argymhellion neu gamau



gweithredu syml gael eu hailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn asesiadau risg neu archwiliad - dylid naill ai eu datrys neu eu herio o ran eu haddasrwydd yn y lle cyntaf.

Nid ymarfer 'ticio blychau' yw adolygu. Mae'n bwysig eich bod yn herio rhagdybiaethau a'r hyn rydych yn ei wneud fel y gellwch benderfynu a oes angen i'ch Coleg/Adran wneud mwy, neu a ydyw'n gwneud gormod ar y llaw arall. Yn ystod adolygiad gofynnwch ychydig gwestiynau y gellir eu defnyddio fel dangosydd da o'r hyn sy'n digwydd yn y Coleg/Adran. Er enghraifft:

- Os yw'r Polisi Iechyd a Diogelwch neu Asesiad(au) Risg yn datgan bod defnyddio nwyon labordy yn gyfyngedig i staff hyfforddedig ac awdurdodedig yn unig a bod holl systemau nwy wedi'i bibellu'n cael eu harchwilio a'u profi, mae angen i chi gadarnhau bod hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Ydy'r holl systemau ar y Rhestr Yswiriant ac yn cael eu profi? Ydy'r holl weithredwyr wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi?
- Disgwylir y bydd holl staff newydd yn cael sesiwn gynefino ganolog a lleol ar lechyd a Diogelwch, y byddant yn cael gwybod am drefniadau gweithredu mewn argyfwng a'u hysbysu sut mae eu Coleg/Adran yn gweithredu a'u swyddogaeth ynddo/ynddi. Ydy hyn yn digwydd? Ydy staff yn cael gwybod sut mae pethau'n gweithio a'r hyn a ddisgwylir ganddynt? A ydynt yn gwybod bod angen iddynt asesu risg gweithgareddau y maent yn eu harwain?
- Os ydych yn datgan y caiff holl offer trydanol ei archwilio ac/neu ei brofi bob blwyddyn a'ch bod yn gweld nad ydych yn cyflawni'r safon hon, gofynnwch a yw'r safon yn addas mewn gwirionedd, neu a ydyw wedi ei gosod yn rhy uchel? Nid yw canllawiau'r Brifysgol ei hun ar brofi offer trydanol yn mynnu bod holl offer yn cael eu harchwilio ac/neu eu profi'n flynyddol, felly pam ydych chi wedi pennu'r safon honno?
- Rhagwelir y bydd holl ymchwil ac astudiaethau cymdeithasol yn y 'maes' yn cael eu hasesu'n addas, boed y rhain yn astudiaethau a oruchwylir ai peidio. Gall Ymchwil Gymdeithasol, er enghraifft, fod yn un o'r gweithgareddau mwyaf peryglus a gyflawnir oherwydd na ellir gweld sut y bydd rhai pobl yn ymateb, felly a oes yna systemau i ddelio a hynny wedi'u sefydlu ac a roddir hyfforddiant a gwybodaeth briodol?
- Mae'n debyg y bydd gennych ddisgwyliadau uchel o ran eich Swyddog neu Gydlynnydd Iechyd a Diogelwch. Ydy'r rhain yn realistig, a all un person mewn gwirionedd gyflawni popeth a ddisgwylir ganddynt, a ydynt wedi cael hyfforddiant ac a oes ganddynt ddigon o amser i wneud yr holl bethau rydych eisiau iddynt ei wneud?

Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch (HSS) hefyd yn cynnal archwiliadau ysbeidiol, naill ai ar thema benodol (asesu pynciau/gweithgareddau sydd â risg yn gysylltiedig â hwy) neu archwiliad ar system iechyd a diogelwch gyffredinol y Coleg/Adran. Mae'r archwiliadau hyn yn asesu cydymffurfiaeth yn erbyn polisiau'r Brifysgol a deddfwriaeth berthnasol a byddant yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn Asesiad Risg Cyffredinol eich Coleg/Adran. O bryd i'w gilydd efallai y gellwch gael archwiliad hefyd gan gorff allanol.



Caiff canlyniadau archwiliadau eu bwydo'n ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch, gyda chrynodebau'n cael eu rhoi ar wefan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.

4. BETH OS AIFF RHYWBETH O'I LE?

Pe bai rhywbeth yn mynd o'i le bydd y canlyniadau i chi, eich cydweithwyr a'r Brifysgol yn amrywio, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad. Mae canllawiau pellach ar beth i'w wneud mewn sefyllfa o'r fath i'w cael yn www.bangor.ac.uk/hss/inflink/accidentandincidentfinalb.php.en. Yn fyr:

- **Ymchwilio:** Rhaid rhoi gwybod i'r HSS am BOB damwain a digwyddiad o fewn 7 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd gan ddefnyddio'r **Ffurflen Damweiniau a Digwyddiadau** bwrpasol. Dylid rhoi gwybod yn syth wrth gwrs am ddamweiniau difrifol. Gall HSS wedyn ymchwilio i'r mater efallai ond, ym mhob achos, dylai ymchwiliad lleol, gan eich cydweithwyr chi, gael ei gynnal i ddeall beth aeth o'i le ac i nodi unrhyw faterion sydd angen sylw. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu oddi wrth bob damwain a digwyddiadau a allai fod wedi achosi damwain, i geisio deall yr achosion y tu ôl iddynt a'u rhwystro rhag digwydd drachefn.
- **Ymwneud gan yr HSE / Yr Heddlu:** Mae'n rhaid i'r HSS roi gwybod i'r HSE o fewn cyfnod penodedig am rai digwyddiadau a dyna pam mae'n hanfodol bod y Ffurflenni Damweiniau a Digwyddiadau yn cael eu hanfon yn ddi-oed. Os bydd yr HSE neu'r Heddlu'n penderfynu ymchwilio i ddigwyddiad, cysylltir fel rheol drwy'r HSS a, lle bo'n briodol, drwy gyfreithwyr y Brifysgol. Bydd yr HSS hefyd yn egluro wrthych chi a'ch staff beth fydd yn digwydd a beth fydd ei angen - er enghraifft, cyfweiliadau, datganiadau gan dystion.
- **Achosion sifil i hawlio iawndal:** Os bydd rhywun yn penderfynu siwio'r brifysgol am iawndal, ymdrinnir â'r mater drwy Swyddog Yswiriant y Brifysgol. Bydd angen i chi ddarparu copïau o'r holl waith papur yn ymwneud â'r digwyddiad a hynny o fewn cyfnod penodol.

SYLWER: *Dylai unrhyw ymwneud ag aelodau o'r wasg a'r cyhoedd gael ei gyfeirio drwy'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol ac/neu ei staff.*

5. CRYNODEB

Fel Deon/Pennaeth Coleg fe'ch anogir i wneud y canlynol:

1. Dod i wybod beth mae eich Coleg/Adran yn ei wneud, sut mae'n gweithio a deall beth yw'r peryglon a'r risgiau o bwys sydd yno.
2. Dysgu sut mae iechyd a diogelwch yn cael ei reoli ar hyn o bryd, dod i adnabod y bobl allweddol sy'n gysylltiedig â hynny, deall eich Asesiad Risg Cyffredinol a dogfennau a systemau eraill sydd gennych, ac ystyried a ellir cynnig mwy o gefnogaeth ai peidio.
3. Adolygu beth sydd wedi'i sefydlu a beth sydd wedi'i gynnwys yn eich Asesiad Risg Cyffredinol; ellwch chi nodi rhywbeth nad yw wedi'i gynnwys yn y dogfennau? Herio'r hyn sy'n cael ei



ddweud a gofyn am dystiolaeth ei fod yn digwydd. Gall hynny dawelu eich meddwl yn syth os cynigir tystiolaeth yn cadarnhau bod y system yn gweithio ac yn gweithio'n dda.

4. Cymryd rhan mewn archwiliadau iechyd a Diogelwch Lleol. Gofalwch bod iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried yn y grwpiau a phwyllgorau pwysicaf.
5. Os yw rheolwr neu aelod staff uwch arall yn gweithredu ar eich rhan yn ddyddiol, dylid cadarnhau neu sefydlu system o wirio a chefnogi. Gofalwch bod eich polisi'n cael ei weithredu a bod risgiau'n cael eu hasesu a systemau'n cael eu sefydlu.
6. Gofynnwch i chi eich hun a yw staff yn gwbl ymwybodol o'u dyletswyddau a'r peryglon posibl yn y man gwaith; oes ar unrhyw un angen hyfforddiant neu wybodaeth ychwanegol?
7. Os nad yw'r system yn bodoli eisoes, gwnewch yn siŵr bod staff newydd yn cael eu cefnogi gyda gweithgareddau newydd wedi'u hasesu'n briodol i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried. Gofalwch wybod pwy ddylai fod yn gwneud yr asesiadau risg a chael eich sicrhau eu bod yn gwybod mai eu gwaith hwy yw gwneud hynny.
8. Cadarnhewch fod y Coleg/Adran yn monitro'r hyn y mae'n ei wneud yn rheolaidd, ei fod/bod yn derbyn ac ystyried ystadegau ar ddamweiniau a salwch, gydag adolygiad mwy trwyadl yn cael ei gynnal bob ychydig flynyddoedd.

Ni ddisgwylir i chi wneud popeth ond fel Uwch Reolwr disgwylir i chi reoli iechyd a diogelwch fel y disgwylir i chi reoli popeth arall o fewn eich maes cyfrifoldeb.

Mae cymorth ar gael o'r canol ac yn lleol, ac mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud i gefnogi iechyd a diogelwch ar draws Colegau ac Adrannau. Chi sydd â'r cyfrifoldeb yn awr o barhau â'r gwaith hwnnw, fel y gellir eich sicrhau chi a'ch cydweithwyr bod gweithgareddau ar draws eich Coleg neu Adran yn cael eu rheoli'n dda.

6. GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Mae gwybodaeth bellach ar bob agwedd yr ymdrinnir â hi yn y llyfryn hwn i'w chael ar wefan yr HSS. Yn ogystal, mae croeso i chi ffonio estyniad 3847 os hoffech drafod unrhyw faes yn fanylach neu pa gefnogaeth ganolog sydd ar gael i chi.

- [Gwefan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch](#)
- [Adran A-Z](#)
- [Swyddogaeth Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch](#)

